

Y Grŵp Trawsbleidiol ar Brifysgolion

Dydd Mercher 23 Tachwedd 2022

12.30pm – 1.30pm (Ar-lein)

Yn bresennol

Hefin David MS - Cadeirydd y CPG ar Brifysgolion

Sioned Williams AS - Aelod Senedd dros Orllewin De Cymru

Yr Athro Paul Boyle - Is-ganghellor Prifysgol Abertawe

Yr Athro Edmund Burke - Is-ganghellor, Prifysgol Bangor

Yr Athro Elizabeth Treasure - Cadeirydd Prifysgolion Cymru ac Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth

Yr Athro Damian Walford Davies - Dirprwy Is-Ganghellor, Prifysgol Caerdydd

Yr Athro Cara Carmichael Aitchison - Is-Ganghellor, Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Cerith Rhys Jones - Rheolwr Materion Allanol, y Brifysgol Agored yng Nghymru

Orla Tarn - Llywydd NUS Cymru

Alastair Delaney - Cyfarwyddwr Gweithrediadau & Dirprwy Brif Weithredwr, QAA

Harriet Barnes, Cyfarwyddwr Polisi a Chyllid, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Hannah Peeler - Swyddog Polisi, British Heart Foundation

Alex Still - Uwch Gynghorydd i Hefin David AS

Berwyn Davies - Addysg Uwch Cymru Brwsel

Catherine Marston - Addysg Uwch Cymru Brwsel

Amanda Wilkinson - Cyfarwyddwr, Prifysgolion Cymru

Lewis Dean - Pennaeth Rhwydwaith Arloesi Cymru, Prifysgolion Cymru

Kieron Rees - Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Prifysgolion Cymru

Sophie Douglas - Cynghorydd Polisi, Prifysgol Cymru

Joshua Bell - Cynghorydd Materion Cyhoeddus, Prifysgolion Cymru

Cofnodion

Croesawodd Hefin David AS (Cadeirydd) yr holl westeion i'r cyfarfod.

Cyfarfod cyffredinol blynyddol

Sioned Williams AS a enwebodd Hefin David MS fel Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol.

Hefin David MS a enwebodd Joshua Bell fel Ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol.

Diolchodd Hefin David AS Sophie Douglas am ei gwaith fel Ysgrifennydd.

Bydd Joshua Bell yn anfon adroddiad blynyddol a datganiad ariannol dros y 6 wythnos nesaf.

1. Argyfwng costau byw

Rhoddodd Orla Tarn drosolwg o'r arolwg costau byw myfyrwyr a gynhaliwyd gan NUS.

Tynnodd Cerith Rhys Jones sylw at yr anawsterau y mae myfyrwyr rhan amser / aeddfed yn eu hwynebu sydd yn wahanol i'r rhai a brofir gan fyfyrwyr traddodiadol 18 oed, a gallai ansawdd y dysgu gael ei heffeithio os nad ydyn nhw'n cael eu cefnogi.

Nododd yr Athro Treasure a Cerith Rhys Jones gynnydd mewn ceisiadau cronfa galedi yn eu sefydliadau priodol.

Hysbysodd Harriet Barnes fod y Gweinidog Addysg wedi gofyn i CCAUC ddarganfod sut mae sefydliadau yn cefnogi myfyrwyr gyda chostau byw.

2. Perthynas ag Ewrop

Fe wnaeth yr Athro Treasure ddiweddarau aelodau CPG ar yr ymweliadau diweddar â Brwsel, a nododd fod ansicrwydd ynghylch ein perthynas â Horizon yn parhau'n rhwystr, ac mae'n edrych yn debygol ein bod yn symud i Gynllun B.

Nododd Amanda Wilkinson fod prifysgolion yng Nghymru wedi gwneud penderfyniad ymwybodol i gadw mewn cysylltiad ag Ewrop er gwaethaf yr ansicrwydd dros Horizon.

Cododd Hefin David MS fater fisas gwaith ôl-astudio a gofynnodd a yw cynlluniau i gyfyngu ar y rhain yn dal i fod ar agenda'r Swyddfa Gartref.

Nododd yr Athro Treasure a'r Athro Walford Davies fod y sefyllfa fisa wedi gwella ond bod angen pwylo.

3. Seilwaith Addysg Uwch y DU

Nododd yr Athro Treasure fod y dargyfeirio yn seilwaith addysg uwch y DU yn achosi problemau i brifysgolion Cymru.

Amlinellodd Alastair Delaney y sefyllfa ynghylch sicrhau ansawdd.

Cynghorodd Amanda Wilkinson fod yna angen dirfawr i bontio cyllid a bod y sector yn trafod sut a ble y gellid sicrhau hyn.

Nododd Hefin David AS ei waith ynghylch pontio o faes addysg i gyflogaeth gyda'r Gweinidog Addysg, sydd â rhywfaint o orgyffwrdd ag addysg uwch o ran prentisiaethau gradd ac ati. Bydd Hefin yn rhannu'r gwaith gyda'r CPG unwaith y bydd yn barod.

4. Diwedd y cyfarfod

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Chwefror/Mawrth 2023. Mae Prifysgolion Cymru yn ystyried cynnal digwyddiad ar y cyd gyda Colegau Cymru a'r CPG ar Addysg Bellach.

5. Camau y cytunwyd arnynt

- Cytunwyd i ystyried ysgrifennu llythyr at Stephen Kinnock AS yn codi'r pryderon hyn am gyllid ôl-UE.
- Cytunwyd i ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a'r Gweinidog Tai yn amlinellu'r materion.
- Cytunwyd i gadw golwg ar y Swyddfa Gartref mewn perthynas â chyfyngiadau posib ar fisas gwaith ôl-astudio.